

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021.

**Eluned Morgan AS**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

2 Rhagfyr 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Senedd

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol gan fod angen brys cywiro gwall a ganfuwyd gan y Pwyllgor yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a gyflwynwyd gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021. Oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU, mae angen cywiro'r gwall cyn gynted â phosibl. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad wedi nodi gwall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Rhif 3. Mewnosododd rheoliad 8 o'r Rheoliadau hynny reoliad 6HB(3) newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, yn ymwneud â gofynion ynysu ar ôl cael canlyniadau profion amhendiant ar gyfer "profion diwrnod 2". Yn y testun Saesneg cyfeiriodd hyn at ynysu am 10 diwrnod, tra bod y testun Cymraeg yn cyfeirio at ynysu am 14 diwrnod. Dylai'r cyfnod ynysu fod yn 10 diwrnod.

Mae'r Rheoliadau hyn nawr yn diwygio testun Cymraeg rheoliad 6HB(3) yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i'w gwneud yn glir mai 10 diwrnod yw'r cyfnod ynysu.

Er ein bod yn ei resynu, yn ymarferol rydym yn cadarnhau na fydd y camgymeriad hwn yn effeithio ar unrhyw un yng Nghymru na'r DU cyn ei gywiro. Y rheswm am hyn yw bod y diwygiad wedi'i gywiro ar ail ddiwrnod y trefniadau newydd, ac felly ond newydd gael eu cymryd oedd "profion diwrnod 2". Ni fyddai canlyniadau unrhyw ganlyniadau profion amhendant a'r gwahaniaeth rhwng testunau'r cyfnodau ynysu o 10 diwrnod neu 14 diwrnod yn cael unrhyw effaith tan yr wythnos nesaf.

Fodd bynnag, mae angen cywiro'r gwall hwn a chymryd camau ar frys gan y gallai canlyniad amhendant fod wedi'i roi ddoe neu heddiw a bydd angen i bobl gynllunio yn unol â hynny.

Daeth y cywiriad hwn i rym am 8pm ar 1 Rhagfyr 2021, ond nid oedd digon o amser rhwng gwneud a gosod yr offeryn i gwblhau'r holl ofynion cofrestru angenrheidiol, er mwyn ei alluogi i gael ei osod ar y diwrnod gwneud.

## **5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## **6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.